

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A'R ECONOMI
6 GORFFENNAF 2021

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi
Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ddydd Mawrth, 6 Gorffennaf 2021.

YN BRESENNOL: **Y Cynghorydd Rosetta Dolphin (Cadeirydd)**

Cynghorwyr: Sean Bibby, David Evans, George Hardcastle, Patrick Heesom,
Andy Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Vicky Perfect, Paul Shotton ac
Owen Thomas

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr Cindy Hicks, Richard Jones a Kevin Rush

HEFYD YN BRESENNOL: Mynychodd y Cynghorwyr canlynol ar gyfer cofnod
Rhif 14

Cynghorwyr: Haydn Bateman, Clive Carver, Geoff Collett, Rob Davies, Richard
Lloyd ac Arnold Woolley

CYFRANWYR:

Cynghorydd Chris Bithell (Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd),
Cynghorydd Glyn Banks (Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd), Prif Weithredwr,
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog
(Gwasanaethau Stryd a Chludiant), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol),
a Phrif Gyfrifydd, Gwasanaethau Stryd a Chludiant

Ar gyfer cofnod rhif 14

Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio) a Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr
Gweithrediadau), Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

HEFYD YN BRESENNOL: Hwyluswyr Trosolwg a Chraffu a Swyddog
Gwasanaethau Democraidd

11. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

12. COFNODION

(i) Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mai 2021.

Materion sy'n codi

Gofynnodd y Cynghorydd Chris Bithell a gafwyd ymateb gan Lywodraeth
Cymru i'r llythyr a anfonwyd ar ran y Pwyllgor i ofyn ynghylch ailsefydlu Cronfa'r
Ardoll Agregau. Esboniodd yr Hwylusydd eu bod wedi derbyn ymateb ac y
byddai'n ei anfon at y Cynghorydd Bithell, a dywedodd fod y Cynghorydd Carolyn
Thomas wedi dweud y byddai hi'n symud hyn yn ei flaen gyda Llywodraeth
Cymru ar ran y Pwyllgor.

Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo, ac fe'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y
Cynghorwyr Paul Shotton ac Owen Thomas.

- (ii) Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2021.

Materion sy'n codi

Manteisiodd y Cynghorydd George Hardcastle ar y cyfle i ddiolch i'r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) am ymateb i'r pryderon a godwyd ganddo yn ystod y cyfarfod ynghylch y costau a ysgwyddir er mwyn ymdrin â chŵn ar grwydr.

Manteisiodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson ar y cyfle hefyd i ddiolch i'r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) am ymateb yn uniongyrchol ac esbonio'r pryderon a gododd yn ystod y cyfarfod ar 8 Mehefin.

Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo, ac fe'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Andy Hughes a Paul Shotton.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

13. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A OLRHAIN GWEITHRED

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol. Tynnodd sylw at daith rithiol o amgylch Parc Adfer a drefnwyd ar gyfer y cyfarfod ar 12 Hydref, a gofynnodd i'r Aelodau gysylltu â hi gydag unrhyw awgrymiadau am eitemau yr hoffen nhw eu cynnwys yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Cyfeiriodd yr Hwylusydd at y camau gweithredu a gododd o'r cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd fod rhai camau gweithredu heb eu cwblhau hyd yma gan eu bod yn faterion hirdymor a byddai diweddariad yn cael ei roi ynghylch cynnydd ar y materion hyn.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Paul Shotton a Joe Johnson.

PENDERFYNWYD:

- (a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;
- (b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
- (c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

14. ADRODDIAD BLYNYDDOL A PHERFFORMIAD CHWARTER 4 BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i gyflwyno adroddiad Chwarter 4 (Ionawr - Mawrth) y Fargen Dwf, Cofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru ac

Adroddiad Blynyddol y Swyddfa Rheoli Portffolios ar gyfer 2020-21 i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Rhoddodd wybodaeth gefndir ac atgoffodd yr Aelodau mai set o ymyriadau tymor canolig i'r hirdymor yw Bargaen Dwf Gogledd Cymru sy'n gysylltiedig â chryfderau Gogledd Cymru, gan nodi Economi Werdd a Chynhwysol yn benodol a diwydiannau blaengar craidd. Dywedodd ei bod yn rhaglen ranbarthol sy'n cynnig cydbwysedd rhwng y Gorllewin a Dwyrain Canol y rhanbarth.

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio, a Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau, ac estynnodd wahoddiad i'r ddau roi cyflwyniad ar y cyd i'r Pwyllgor ar Fargaen Dwf Gogledd Cymru, a oedd yn ymwneud â'r prif bwyntiau canlynol:

- Portffolio'r Fargaen Dwf:
- y 5 Rhaglen:
 - Rhaglen Ddigidol
 - Rhaglen Tir ac Eiddo
 - Rhaglen Ynni
 - Arloesi yn y Rhaglen Gweithgynhyrchu Uchel ei Werth
 - Rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth
- Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 (Ionawr-Mawrth 2021) Bargaen Dwf Gogledd Cymru
- Adroddiad Blynyddol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2020-21

Cyfeiriodd Paul Shotton at lacio cyfyngiadau Covid a gofynnodd a ellid dwyn unrhyw rai o'r prosiectau ymlaen cyn 2023. Gofynnodd hefyd am y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect uwchsgilio. Esboniodd y Rheolwr Gweithrediadau fod y gwaith ar gyflawni'r prosiect yn mynd yn ei flaen mor gyflym â phosibl, serch hynny, prosiectau cyfalaf cymhleth tymor canolig/hirdymor oedden nhw a byddai'n cymryd amser i'w datblygu a'u hadeiladu. Esboniodd y byddem yn debygol o weld buddiannau'r prosiectau gweithredol cyntaf o 2023 ymlaen, serch hynny, disgwylir i'r cyfnodau adeiladu ddechrau tua diwedd 2021/dechrau 2022. Dywedodd y Cyfarwyddwr Portffolio y byddai'r holl fuddsoddiad cyfalaf angen y sgiliau a'r bobl gywir i wasanaethu'r buddsoddiad a soniodd am y gwaith gyda'r bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, diwydiannau, colegau ac ysgolion, o ran y sgiliau a'r cyfleoedd gwaith sydd eu hangen i gadw gwerth yn yr economi leol.

Gofynnodd y Cynghorydd Andy Hughes pa strategaethau sydd yn eu lle i hyrwyddo'r Fargaen Dwf ymhlith y cyhoedd. Esboniodd y Cyfarwyddwr Portffolio fod gwefan yn cael ei datblygu ar hyn o bryd ac y byddai'n cael ei lansio yn y misoedd nesaf. Bydd y wefan yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr a manylion cyswllt ar gyfer pob prosiect. Yn ogystal â'r wefan, bydd hunaniaeth brand hefyd yn cael ei lansio. Soniodd am yr angen i ddylanwadu ar bobl ifanc a'u hysbrydoli ynghylch y cyfleoedd a'r swyddi uchel eu gwerth y byddai'r Fargaen Dwf yn eu creu.

Esboniodd y Prif Weithredwr y byddai'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yn ehangu ei rôl yn y dyfodol er mwyn cael effaith ehangach y tu hwnt i'r Fargaen Dwf. Yn nhermau ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Fargaen Dwf, soniodd y byddai

diddordeb mawr mewn rhai prosiectau a dywedodd eu bod wedi ymgysylltu'n sylweddol gyda'r sector busnes a'r sector academiaidd a byddai hynny'n treiddio trwodd. Dywedodd fod Gogledd Cymru yn cael ei ystyried yn rhanbarth cydlynol ac uchelgeisiol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a dywedodd fod angen magu diddordeb ymhlith budd-ddeiliad a hyrwyddo prosiectau lleol pan fydd popeth ar waith.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Owen Thomas at brosiect Caergybi a gofynnodd a fydd buddsoddiad yn cael ei wneud yn yr A55 a thrydaneiddio gwasanaeth trên Caergybi i Gaer. Gofynnodd hefyd a fyddai buddsoddiad yn cael ei wneud mewn cerbydau trydan a chyfeiriodd at gynhyrchu peiriannau yn Toyota ar Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy. Esboniodd y Prif Weithredwr y ceir rhaglenni gwaith ar wahân ar gyfer yr A55 a gwasanaethau trên. Dywedodd fod buddsoddiad yn cael ei wneud i wella capasiti tir a chyflymder a bod Trafnidiaeth Cymru yn buddsoddi mewn cerbydau ond nad yw trydaneiddio ar yr agenda ar gyfer Llywodraeth Cymru na Llywodraeth y DU ar gyfer rheilffordd Gogledd Cymru ar hyn o bryd gan mai gwella cysylltedd, nifer y trenau ac ansawdd y gwasanaeth yw'r flaenoriaeth. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw'r A55 ac mae nifer o gynlluniau ar waith i wella'r llif ac mae'r Awdurdod yn gobeithio cael cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn lleihau tagfeydd heb orfod creu ffordd newydd nac adeiladu pont newydd yn lle Pont Sir y Fflint.

Rhoddodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) ragor o fanylion am brosiect Caergybi. Dywedodd ei fod yn gyfnod tyngedfennol i'r gwaith, ac fel rhan o'r Rhaglen Tir ac Eiddo, mae'r cynigion ar gyfer buddsoddi ym mhrosiect Caergybi yn cael eu hadolygu a gall hyn gael effaith ar brosiectau eraill yn y Rhaglen honno.

Gofynnodd Patrick Heesom a ellid ystyried y potensial ar gyfer porthladd Mostyn a chyfeiriodd at y pryderon a godwyd ynghylch prosiect Caergybi. Esboniodd y Prif Weithredwr er nad yw Mostyn yn y Fargen Dwf – a'i fod yn talu am ei waith ehangu ei hun – ac felly nad yw'n rhan o'r rhestr gyllid, yr Awdurdod fyddai ei eiriolwr ar gyfer y rhanbarth a Sir y Fflint gan ei fod yn parhau i fod yn borthladd pwysig.

Diolchodd y Cynghorydd Glyn Banks i bawb am eu gwaith a mynegodd ei fod yn cefnogi'r Fargen Dwf. Cyfeiriodd at y twf disgwylid yn y diwydiant twristiaeth a gofynnodd am ragor o wybodaeth am brosiect Rhwydwaith Talent Twristiaeth. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Portffolio drosolwg o'r prosiect ac esboniodd fod y Rhwydwaith Talent Twristiaeth yn brosiect wedi'i ddylunio i nodi'r angen am sgiliau yn y byd twristiaeth ac i wella ansawdd gwasanaethau i gwsmeriaid a lletygarwch. Soniodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) pa mor heriol oedd recriwtio i'r diwydiant twristiaeth yn y 12 mis diwethaf.

Esboniodd y Prif Weithredwr y byddai adroddiadau cynnydd ac adroddiadau ar themâu o ddiddordeb arbennig yn cael eu darparu yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnis gan y Cynghorydd Patrick Heesom a'i eilio gan y Cynghorydd Paul Shotton.

PENDERFYNWYD:

Nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 ac Adroddiad Blynyddol y Swyddfa Rheoli Portffolios ar gyfer 2020/21.

15. MARCHNADOEDD CANOL TREF

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am farchnadoedd lleol yn Sir y Fflint. Rhoddodd wybodaeth gefndir ac adroddodd ar y prif ystyriaethau, fel y manylwyd arnynt yn yr adroddiad. Soniodd am heriau ac effeithiau parhaus y pandemig ar farchnadoedd stryd a rhai dan do a busnesau lleol dros y 12 mis diwethaf. Esboniodd fod y Cyngor wedi cefnogi busnesau marchnad yn ystod y pandemig a hyrwyddo pwysigrwydd busnesau lleol a siopa'n lleol i'r trigolion. Dywedodd y Prif Swyddog y byddai'n croesawu safbwyntiau Aelodau ar fuddsoddi mwy o arian mewn marchnadoedd stryd lleol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cwestiynau a gafodd gan fasnachwyr marchnadoedd stryd yn Nhreffynnon a dywedodd nad oedden nhw'n teimlo eu bod yn cael eu trin yr un fath â masnachwyr marchnad yn Yr Wyddgrug a rhoddodd enghraifft.

Gofynnodd y Cynghorydd Joe Johnson a ellid denu masnachwyr marchnad sy'n llwyddiannus mewn ardaloedd eraill i fasnachu yn Sir y Fflint. Derbyniodd y Prif Swyddog y pwynt ac esboniodd fod rhai marchnadoedd yn cael eu cynnal ar safle parhaol a'u bod ar agor i'r cyhoedd ar fwy o ddyddiau ac am gyfnodau hirach na'r marchnadoedd lleol, serch hynny, gellid edrych yn fanylach ar y posibiladau.

Yn sgil y pandemig, dywedodd y Cynghorydd Vicky Perfect fod yn well gan nifer o bobl siopa'r tu allan ac yn lleol ac awgrymodd y gellid ystyried ailgyflwyno marchnad yn Y Fflint.

Soniodd y Cynghorydd Chris Bithell am y diffyg manau parcio ar gyfer masnachwyr marchnad yn Yr Wyddgrug a dywedodd fod angen cydweithredu rhwng adran y marchnadoedd a gwasanaethau stryd i ddatrys y problemau presennol. Cytunodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) i drafod y mater gyda'r meysydd gwasanaeth perthnasol.

Gofynnodd y Cynghorydd George Hardcastle pa ffioedd a godir am fasnachu mewn marchnadoedd lleol. Cytunodd y Prif Swyddog y byddai'n dosbarthu copi o ffioedd presennol yr Awdurdod i'r Pwyllgor cyn y cyfarfod nesaf.

Siaradodd y Cynghorydd Owen Thomas o blaid marchnad Yr Wyddgrug.

Gofynnodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson a ellid cynnwys Bwcle yn yr adolygiad o'r marchnadoedd presennol yn Sir y Fflint gan obeithio y gellid sefydlu marchnad yn yr ardal honno er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n ymweld â'r dref.

Soniodd y Cynghorydd Bithell bod angen cyflwyno busnesau newydd ac annog entrepreneuriaeth i fasnachu mewn marchnadoedd lleol ac, os byddai'n

llwyddiannus, gallai greu cyfleoedd ar gyfer masnach a swyddi parhaol yn yr ardal leol.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Joe Johnson a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd Owen Thomas.

PENDERFYNWYD:

Adolygu sefyllfa bresennol y marchnadoedd yn Sir y Fflint a nodi'r gwaith mae'r Cyngor wedi ei wneud i'w cefnogi.

16. Y DIWEDDARAF AR BROSIECT HWB HYDROGEN GLANNAU DYFRDWY

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sydd wedi'i wneud gan Jacobs hyd yma i ddatblygu Achos Busnes Strategol ar gyfer hwb hydrogen newydd yng Nglannau Dyfrdwy. Rhoddodd wybodaeth gefndir a dywedodd fod y rhaglen ynni carbon isel yn cynnig cyfle i sefydlu Gogledd Cymru fel lleoliad blaenllaw ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel yn y DU. Dywedodd fod y Fargen Dwf, sydd ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru i gyd, wedi neilltuo £11.4 miliwn ar gyfer prosiect Hwb Hydrogen Glannau Dyfrdwy. Er mai Sir y Fflint yw canolbwynt prosiect yr Hwb Hydrogen, mae'n cynnig cyfleoedd enfawr i bob rhan o Ogledd Cymru. Cyfeiriodd y Prif Swyddog at y pwyntiau allweddol fel sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog at destun cerbydau trydan a gafodd ei drafod yn ystod y cyfarfod ac oherwydd y gwaharddiad ar werthu ceir a faniau petrol a diesel newydd yn 2030 mae cerbydau trydan yn cael eu hyrwyddo a byddai hyn yn chwarae rhan bwysig yn nyfodol cludiant. Dywedodd fod cynllun pontio yn cael ei ddatblygu, yn dilyn y strategaeth a luniwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer trydan a gwefru cerbydau, ac mae'r Awdurdod yn gweithio'n agos gyda thimau ynni Llywodraeth Cymru ar sut i'w roi ar waith.

Wrth ymateb i sylwadau'r Cynghorydd Paul Shotton i gefnogi manteision y prosiect hydrogen, dywedodd y Prif Swyddog fod y rheolwr prosiect wedi cysylltu â nifer o ddiwydiannau/busnesau lleol i drafod sut gallen nhw fod yn rhan ohono yn y dyfodol. Dywedodd fod yr achos busnes strategol ar hyn o bryd yn asesu'r galw am hydrogen ar draws y rhanbarth a dywedodd fod angen datblygu isadeiledd i roi hyder i gwmnïau fuddsoddi mewn cerbydau. Wrth ymateb i'r sylwadau pellach gan y Cynghorydd Shotton, dywedodd y Prif Swyddog mai dim ond hydrogen "gwyrdd" sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd, wedi dweud hynny, mae potensial i ddefnyddio hydrogen "glas" i ddechrau ac yna symud ymlaen at yr un "gwyrdd" ac mae hyn yn cael ei ystyried.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Glyn Banks at y cynnig i greu hwb hydrogen yng Nglannau Dyfrdwy (y cyfeirir ato fel cyfleuster cyflenwi hydrogen mewn bynkeri) a gofynnodd a ellid adeiladu un mwy, o dan y ddaear. Esboniodd y Prif Swyddog y byddai maint y bynker yn dibynnu ar y galw, sy'n anhysbys ar hyn o bryd, ond byddai'n dod yn amlwg wrth i'r achosion busnes gael eu datblygu. Ymatebodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) i'r cwestiwn arall a godwyd gan y Cynghorydd Banks ynghylch defnyddio hydrogen "glas" a "gwyrdd" ac esboniodd y gwahaniaeth rhwng y ddau. Dywedodd mai'r hydrogen "gwyrdd"

sy'n cael ei ffafrio ar gyfer prosiect Glannau Dyfrdwy gan nad yw'n cynhyrchu'r isgynnyrch carbon sydd angen ei storio neu ei symud i rywle arall.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Paul Shotton a Joe Johnson.

PENDERFYNWYD:

Cefnogi'r gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma mewn partneriaeth â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ystyried y dewisiadau ar gyfer hwb ynni hydrogen yng Nglannau Dyfrdwy.

17. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.37am)

.....
Cadeirydd